**Arolygiad o dan Adran 28**
**Deddf Addysg 2005**

# Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

**Ysgol Gynradd Edern**
**Ffordd y Rhos**
**Edern**
**Pwllheli**
**Gwynedd**
**LL53 8YW**

**Rhif yr Ysgol: 6612046**

**Dyddiad yr Arolygiad: 28 Ebrill 2008**

**gan**

**Wil Williams**

**67644**

**Dyddiad Cyhoeddi: 02 Gorffennaf 2008**

**O dan rif contract Estyn: 1117507**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a’r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

91 Hyrwyddir datblygiad ysbrydol disgyblion yn rhagorol. Mae’r sesiynau addoli ar y cyd o safon uchel iawn ac yn cynnig cyfleoedd arbennig o dda i ddisgyblion fyfyrio’n dawel a meddylgar ar faterion pwysig sy’n effeithio ar eu bywydau.

92 Mae’r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad moesol a chymdeithasol disgyblion hefyd yn rhagorol. Rhoddir anogaeth gyson i ddisgyblion fod yn ofalgar tuag at eraill boed hynny y tu mewn neu’r tu allan i’r ystafell dosbarth. Mae’r arfer o roi cyfrifoldeb i’r disgyblion hynaf gymryd gofal dros y rhai ieuengaf yn ystod y dydd yn cyfrannu’n arwyddocaol tuag at yr agwedd hon. Mae’r ‘Bydis Buarth’ yn ysgwyddo eu cyfrifoldebau hwythau gyda balchder yn ystod amser chwarae ac amser cinio.